

**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWDYD YN
SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD LLUN, 4 MAWRTH 2019**

AELODAU

Y Cynghorydd M G Morris, Cadeirydd
Y Cynghorydd Marc Jones, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Bryan Apsley	Y Cynghorydd	John McCusker
"	I David Bithell, MBE	"	Beverley Parry-Jones
"	Michael Dixon	"	Paul Pemberton
"	Frank Hemmings	"	John Phillips
"	Adrienne Jeorrett	"	Ronnie Prince
"	* Gwenfair Jones	"	John Pritchard
"	Paul Jones	"	Paul Roberts
"	David Maddocks	"	Graham Rogers
"	Tina Mannering	"	* Andy Williams

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Andrew Atkinson, Trevor Bates, Brian Cameron, Dana Davies, Terry Evans, R Alun Jenkins, Joan Lowe, Mark Pritchard a Robert Walsh

57 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Gwenfair Jones ac Andy Williams.

58 CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2019.

PENDERFYNWYD – Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2019 fel cofnod cywir.

59 DATGAN CYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI

Atgoffwyd yr Aelodau o'u cyfrifoldeb, dan baragraff 11 Cod Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw gysylltiadau mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Gwnaed y datganiadau canlynol:

Eitem 4 ar y Rhaglen – Ceisiadau Rheoli Datblygu

Y Cynghorydd M Morris – Cysylltiad personol ac un sy'n rhagfarnu – Cais Rhif P/2018/0922 gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd a'i fod yn gwsmer i'w fusnes. Gadawodd y Cynghorydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth na'r broses bleidleisio arni.

Y Cyngorydd Bryan Apsley – Cysylltiad personol ac un sy'n rhagfarnu – Cais Rhif P/2017/0314 – gan mai fo oedd Ysgrifennydd Clwb Cymdeithasol y Lleng Brydeinig yn Llai. Gwnaeth y Cyngorydd, yn ei rôl fel un o'r Aelodau Lleol, sylwadau yn unol â Rhan 3, Adran 14(2) Cod Ymddygiad Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gan nodi ei wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, ac yna gadawodd y cyfarfod, ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth na'r broses bleidleisio arni.

Eitem 5 ar y Rhaglen - Gorchymyn Diogelu Coed 282/2018 Llysoedd Barn Wrecsam a Phencadlys yr Heddlu, Bodhyfryd, Wrecsam.

Y Cyngorydd Bryan Apsley – Cysylltiad personol ac un sy'n rhagfarnu – ar ôl dangos ei wrthwynebiad i gadarnhau'r Gorchymyn Diogelu Coed mewn e-bost at yr holl Aelodau gan, drwy hynny, benderfynu ymlaen llaw ar y cais. Gadawodd y Cyngorydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth na'r broses bleidleisio arni.

Y Cyngorydd Adrienne Jeorrett – Cysylltiad personol ac un sy'n rhagfarnu – roedd ei chyflogwr wedi trafod y Gorchymyn Diogelu Coed yn gyhoeddus. Gadawodd y Cyngorydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth na'r broses bleidleisio arni.

60 **CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Cyflwynodd Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio adroddiad (HEP/13/19) i Aelodau ystyried ceisiadau cynllunio a thynnwyd sylw at ei atodiad i'r adroddiad lle bo'n berthnasol.

Cais Rhif P/2018/0551 – Cais Cynllunio i ddatblygu Cyfleuster Cynhyrchu Bordiau Sgiodion Pren yn Kronospan Ltd., Ffordd Caergybi, y Waun, Wrecsam

Siaradodd preswlydd yn erbyn y cais.
Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

Mynegodd yr Aelod Lleol ei wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig gan fod yr Aseiad Cludiant a gyflwynwyd gyda'r cais yn dangos cynnydd o 24% mewn cerbydau nwyddau trymion ar y ffordd (oddeutu 200 o lorïau nwyddau trymion) ar y safle dros gyfnod o 24 awr. Soniodd am y tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a bod cyflwr y ffordd yn dirywio, yn enwedig wrth fynedfa'r safle. Yn ei farn o, ni fydd y fynedfa bresennol i'r safle o'r B5070 Ffordd Caergybi yn gallu ymdopi â'r cynnydd mewn cerbydau i ac o'r safle a dylai'r ymgeisydd ymchwilio i ddarparu mynedfa arall i'r safle i gerbydau. Ar ben hyn, mae'n bosib' y bydd cynnydd o ran sŵn, llwch ac allyriadau trwy ychwanegu llinell gynhyrchu newydd.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunodd sawl Aelod â barn yr Aelod Lleol gan awgrymu gohirio ystyried y cais ymhellach i ganiatáu i'r ymgeisydd ymchwilio i greu mynedfa arall i'r safle. Cytunodd y Pwyllgor ar hyn.

PENDERFYNWYD – GOHIRIO ystyried y cais er mwyn caniatáu amser i'r ymgeisydd ystyried mynedfa arall i'r safle er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried y

cais gyda chymaint o wybodaeth â phosib.

Cais Rhif P/2018/0577 – Adeiladu pedwar adeilad amaethyddol i fagu da byw (dofednod), adeilad a safle ategol, isadeiledd cysylltiedig, gwaith tirlunio a threfniadau mynediad ar Cinders Farm, Cinders, Rhiwabon, Wrecsam.

Siaradodd cynrychiolydd y preswylwyr lleol yn erbyn y cais.
Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

Dywedodd yr Aelod Lleol gyda'r Aelod Lleol arall y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cynyddu traffig cerbydau nwyddau trwm ar hyd y rhwydwaith priffyrdd lleol. Roedd y fynedfa i safle'r datblygiad wedi'i chynnig oddi ar Lôn y Lludw, ffordd gul gyda lleiniau gweledd ar ei chyffordd â'r A539 nad oedd yn bodloni'r canllawiau sydd yn Nodyn Cyngor Technegol 18 Polisi Cynllunio Cymru. Yn eu barn nhw, ni fyddai gweithredu'r mesurau arfaethedig i wella'r briffordd yn ddigonol i ganiatáu i gerbydau nwyddau trwm deithio'n ddiogel ar hyd Lôn y Lludw a byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch ar y briffordd yn y lleoliad hwn. Felly, bu iddynt ofyn i'r Aelodau wrthod caniatâd cynllunio.

Wrth ystyried y cais, awgrymwyd, pe bai'r Pwyllgor o blaid rhoi caniatâd, er mwyn diogelwch ar y priffyrdd ac i warchod amwynderau'r rhai a oedd yn byw yn yr eiddo ger llaw, y dylid cynnwys dwy amod arall er mwyn nodi oriau danfon a chasglu adar a darparu cynllun adeiladu a thraffig gweithredol. Cytunodd y Pwyllgor ar hyn.

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio fel mae wedi'i nodi yn adroddiad HEP/13/19 ynghyd â'r amodau ychwanegol canlynol:

Ychwanegu Amod 19

Yn amodol ar eithriadau sydd wedi'u manylu ar wahân yn yr amod hwn, bydd yr holl waith mewn perthynas â gweithredu'r caniatâd hwn, gan gynnwys danfon neu gasglu o'r safle yn cael ei wneud rhwng 07:30 a 18:00 ddydd Llun i ddydd Gwener, a 08:00 a 14:00 ddydd Sadwrn yn unig, ac ni fydd yn cael ei wneud ar ddydd Sul, Gŵyl y Banc na Gwyliau Cyhoeddus. Bydd caniatâd i gerbydau sy'n gysylltiedig â danfon neu gasglu'r adar fod ar y safle o 06:30 gan lwytho neu ddadlwytho o 07:00 ymlaen. Ni fydd tail yn cael ei symud o'r safle ar ddyddiau Sadwrn, dyddiau Sul na Gŵyl y Banc na Gwyliau Cyhoeddus.

Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

Ychwanegu Amod 20

Cyn cychwyn ar y datblygiad, bydd cynllun rheoli adeiladu a thraffig gweithredol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer lle parcio i gontractwyr, yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y cynlluniau fel maent wedi'u cymeradwyo'n cael eu gweithredu'n llawn a'u cynnal am hyd y defnydd a ganiateir yma.

Rheswm: Er mwyn diogelwch ar y priffyrdd ac amwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

Cais Rhif P/2018/0832 – Datblygiad preswyl ar gyfer 6 annedd a mynedfa newydd gysylltiedig i gerbydau ar dir wrth gefn Capel Seion, Pontfadog, Llangollen.

Siaradodd preswlydd yn erbyn y cais.

Mynegodd yr Aelod Lleol ei gefnogaeth i'r cais gan y byddai'r datblygiad arfaethedig, yn ei farn o, yn darparu eiddo llai y mae mawr angen amdano yn yr ardal. Ar ben hynny, mae Landlord Cymdeithasol Cofrestredig wedi dangos diddordeb mewn rheoli'r tai, felly, gofynnodd i ganiatâd gael ei roi.

Wrth ystyried y cais, awgrymodd un Aelod, pe bai'r Pwyllgor o blaid rhoi caniatâd, er mwyn diogelwch ar y priffyrdd ac i warchod amwynderau'r rhai a oedd yn byw yn yr eiddo ger llaw, y dylid cynnwys dwy amod arall er mwyn darparu cynllun adeiladu a thraffig cyn cychwyn ar y datblygiad. Cytunodd y Pwyllgor ar hyn.

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhellion Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio fel y nodir yn adroddiad HEP/13/19 gan ychwanegu'r amod canlynol iddo:

Ychwanegu Amod 26

Cyn cychwyn ar y datblygiad, bydd cynllun rheoli adeiladu a thraffig, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer lle parcio i gontractwyr, yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun hwn yn cael ei weithredu'n llawn yn unol â'r manylion fel y bydd wedi'i gymeradwyo.

Rheswm: Er mwyn diogelwch ar y priffyrdd ac amwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

(Gadawodd y Cynghorydd M G Morris ei safle fel Cadeirydd ar gyfer yr eitem ganlynol, ar ôl datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn y cais hwn. Roedd yr Is-gadeirydd yn y Gadair ar gyfer yr eitem hon).

Cais Rhif P/2018/0922 – Cais i amrywio amod rhif 2 a osodwyd ar Ganiatâd Cynllunio P/2017/0744 i ddiwygio'r darluniau sydd wedi'u cymeradwyo i ddileu'r elfen dau lawr ar yr estyniad yn 1 y Groes, Ffordd Salisbury, Wrecsam.

(Mae cysylltiad aelod mewn perthynas â'r cais hwn wedi'i nodi yng Nghofnod 59 uchod).

Roedd cynrychiolydd yr ymgeisydd yn bresennol, ar ôl nodi ei fwriad i siarad o blaid y cais, ond ni wnaeth hynny yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio fel y nodwyd yn adroddiad HEP/13/19.

Cais Rhif P/2018/0933 – Datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys datblygiad

preswyl (amlinellol), uned fanwerthu 4,000 troedfedd sgwâr (amlinellol), maes parcio (llawn), manylion mynedfa (pob mater arall wedi'i gadw) a gwaith cysylltiedig yng Nghlwb Cymdeithasol y Lleng Brydeinig, Clawdd Watt, Llai, Wrecsam.

(Mae cysylltiad aelod mewn perthynas â'r cais hwn wedi'i nodi yng Nghofnod 59 uchod).

Siaradodd aelod o'r cyhoedd yn erbyn y cais.
Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

Nododd y ddau Aelod Lleol, ynghyd â'r Aelod Lleol cyfagos, eu gwrthwynebiad i'r cais. Bu iddynt gyfeirio at y cais cynllunio blaenorol i ddatblygu'r safle (P/2017/0314) a wrthodwyd gan y Pwyllgor hwn ar 2 Gorffennaf 2018. Yn eu barn nhw, nid oedd unrhyw newid sylweddol i'r sefyllfa ac roedd darpariaeth cyfleusterau gofal iechyd sylfaenol lleol, yn enwedig cael apwyntiad â meddyg teulu, wedi dirywio. Bu iddynt ailadrodd eu pryderon blaenorol ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig, a oedd yn cynnwys:

- Diffyg capasiti gan gyfleusterau cymunedol lleol, yn enwedig ysgolion a gofal iechyd, i ddarparu'n ddigonol ar gyfer y galw ychwanegol a fyddai'n dod yn sgil y datblygiad ac felly mae'n groes i Bolisi GDP2 yng Nghynllun Datblygu Unedol mabwysiedig Wrecsam.
- O ganlyniad i gollu tir wrth y clwb cymdeithasol sydd ar gael i barcio ac ar gyfer gwasanaethau cofio, bydd y datblygiad yn effeithio'n andwyol ar gyfleuster cymunedol amlbwrpas ac felly mae'n groes i Bolisi CLF1 y Cynllun Datblygu Unedol mabwysiedig.
- Capasiti'r briffordd leol bresennol ac isadeiledd draenio i ddarparu ar gyfer y datblygiad arfaethedig.
- Trwy leihau faint o dir sydd ar gael i barcio ceir ac ar gyfer gwasanaethau cofio yn y clwb cymdeithasol yn sylweddol, byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar y ffordd mae'r cyfleuster cymunedol amlbwrpas hwn yn gweithredu.

Felly, bu iddynt ofyn i'r cais gael ei wrthod am yr un rhesymau a nodwyd ym mis Gorffennaf 2018.

Wrth ystyried y cais, atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod gwybodaeth ychwanegol wedi'i darparu gan y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Adran Addysg ac roedd hon wedi'i nodi yn adroddiad y Swyddog. Ar ôl clywed barn yr Aelodau,

PENDERFYNWYD -

(1) Bod rhwymedigaeth yn unol ag Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ofynnol i sicrhau:

- **Bod Cwmni Rheoli yn cael ei ffurfio gan yr ymgeisydd er mwyn cynnal a chadw'r holl ardaloedd cyffredin yn y dyfodol gan gynnwys dreifs, ardaloedd parcio, ardaloedd wedi'u tirlunio, coed a phlanhigion;**

- Bod swm gohiriedig yn cael ei dalu ar gyfradd o £1,000 fesul annedd i wella nodweddion tirlunio ym Mharc Gwledig Dyfroedd Alun sydd ger llaw;
- Darpariaeth Tai Fforddiadwy ar draws y datblygiad yn unol â diffiniad Llywodraeth Cymru; a
- Cyfraniad tuag at ddiffyg o ran darpariaeth isadeiledd addysg gynradd ac uwchradd;

a bod Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio yn derbyn awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo ffurf derfynol a chynnwys y rhwymedigaeth.

- (2) Ar ôl cyflawni rhwymedigaeth Adran 106, dylid RHOI caniatâd yn unol ag argymhelliad Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio fel y nodir yn adroddiad HEP/13/19.
- (3) Os nad yw rhwymedigaeth Adran 106 yn cael ei chyflawni o fewn 6 mis o ddyddiad penderfyniad y Pwyllgor, dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio WRTHOD caniatâd cynllunio am y rheswm canlynol:

Rhesymau

- Diffyg cynnal a chadw priodol gan yr ymgeisydd o'r holl ardaloedd cyffredin, gan gynnwys y manau parcio, ardaloedd wedi'u tirlunio a phlanhigion;
- Diffyg gwelliant neu ddarpariaeth o fannau agored i ddarparu ar gyfer anghenion yr anheddau yn y dyfodol;
- Diffyg darpariaeth tai fforddiadwy; a
- Diffyg darpariaeth isadeiledd ar gyfer addysg gynradd ac uwchradd.

Cais Rhif P/2018/0935 – Cais i amrywio Amod 13 a osodwyd ar Ganiatâd Cynllunio P/2016/1048 i ganiatáu gollwng dŵr wyneb wedi'i ddraenio i'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus yn rhannol yn The Goulbourne, Ffordd Parc Borrás, Wrecsam.

Roedd cynrychiolydd yr ymgeisydd yn bresennol, ar ôl nodi ei fwriad i siarad o blaid y cais, ond ni wnaeth hynny yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio fel y nodwyd yn adroddiad HEP/13/19.

Cais Rhif P/2018/0975 – Codi ffens (dros 1 metr o uchder) gyferbyn â'r briffordd (ôl-weithredol) yn Edgecroft, Lôn y Pant, Gresffordd, Wrecsam.

Mynegodd yr Aelod Lleol ei gefnogaeth i'r cais gan fod rhan o'r ffens wedi'i gosod yn ei hôl, ar ôl i'r llun a oedd yn yr adroddiad gael ei dynnu, i wella gwelededd o ddreif yr eiddo cyfagos i'r briffordd. Felly, gofynnodd i'r Aelodau roi caniatâd.

Ar ôl clywed barn yr Aelodau,

PENDERFYNWYD – y dylid GWRTHOD y cais yn unol ag argymhelliad Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio fel y nodir yn adroddiad HEP/13/19.

Cais Rhif P/2018/0995 – Rhannu un annedd yn 3 fflat (ôl-weithredol) yn fflatiau 2, 3 a 4 Llwyn Celli, Trem yr Eglwys, y Waun, Wreccsam.

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio fel y nodwyd yn adroddiad HEP/13/19.

Cais Rhif P/2018/1010 – Newid defnydd o B1 (swyddfa) i D1 (meddygol) yn Unedau 1 a 3 Cwrt Chesney, Lôn Rhyd Broughton, Parc Technoleg Wreccsam, Wreccsam.

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio fel y nodwyd yn adroddiad HEP/13/19.

Cais Rhif P/2019/0002 – Estyniad unllawr i ddisodli ystafell haul bresennol a phortsh blaen newydd yn 2 Forest Hills, Halchdyn, y Waun, Wreccsam.

Roedd preswlydd wedi mynegi ei furiad i siarad yn erbyn y cais, ond roedd wedi gadael y cyfarfod cyn i'r cais gael ei ystyried.

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio fel y nodwyd yn adroddiad HEP/13/19.

Cais Rhif P/2019/0016 – Creu lle parcio ar y stryd ar dir o flaen Rhifau 77 a 78 Longfield, y Waun, Wreccsam.

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio fel y nodwyd yn adroddiad HEP/13/19.

61

GORCHYMYN DIOGELU COED 282/2018 LLYSOEDD BARN A PHENCADLYS HEDDLU WRECCSAM, BODHYFRYD, WRECCSAM

(Mae cysylltiad aelodau mewn perthynas â'r cais hwn wedi'i nodi yng Nghofnod 59 uchod).

Cyflwynodd Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio adroddiad (HEP/21/19) a oedd yn caniatáu ystyriaeth i gael ei rhoi i sylwadau ysgrifenedig a wnaed mewn perthynas â Gorchymyn Diogelu Coed Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, Rhif 282/2018 – Llysoedd Barn a Phencadlys Heddlu Wreccsam, Bodhyfryd, Wreccsam.

Dywedodd yr Aelod Lleol y gallai cadarnhau'r Gorchymyn gael effaith niweidiol ar fwriad i adeiladu dalfa newydd a ffordd fynediad sy'n angenrheidiol i wasanaethu'r Llysoedd Barn sydd ar y safle. Atgoffodd y Rheolwr Rheolaeth Gynllunio'r Aelodau y byddai cadarnhau'r Gorchymyn Diogelu Coed yn caniatáu i'r Cyngor orfodi'r datblygwr i blannu coed yn eu lle pe bai achos yn y dyfodol lle mae caniatâd i'r coed dan sylw gael eu torri.

Awgrymodd un Aelod bod sycamorwydden aeddfed arall ar y safle a fyddai hefyd, yn ei farn o, werth ei gwarchod. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Coedyddiaeth ei resymau dros ddewis y coed dan sylw i'w gwarchod, ond cytunodd y gallai'r sycamorwydden fod yn deilwng o gael ei gwarchod.

Wrth ystyried y Gorchymyn, awgrymodd sawl Aelod y dylid addasu'r Gorchymyn Diogelu Coed i gynnwys y sycamorwydden aeddfed ar y safle a'i gadarnhau. Cytunodd y Pwyllgor ar hyn.

PENDERFYNWYD - Cadarnhau Gorchymyn Diogelu Coed Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 282/2018: Llysoedd Barn a Phencadlys Heddlu Wrecsam, Bodhyfryd, Wrecsam gan ei addasu i gynnwys y sycamorwydden aeddfed.

62 PENDERFYNIADAU APELIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynodd Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid adroddiad ar y cyd (HEP/22/19) a oedd yn hysbysu'r Pwyllgor ynghylch canlyniad apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor (Mehefin 2016 - Ionawr 2019).

PENDERFYNWYD – Nodi'r adroddiad.

63 YMDDEOLIAD

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliad Ken Bickerton a oedd ar y gorwel. Roedd Ken wedi bod yn glerc i'r Pwyllgor hwn ers blynyddoedd ac roedd yr Aelodau'n dymuno'r gorau iddo yn y dyfodol.

Y Cyngorydd M G Morris
Cadeirydd